

Effaith COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau

Awst 2020

Y cefndir

1. Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ystyried effaith argyfwng COVID-19 ar feysydd sydd o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys amgueddfeydd, archifau a threftadaeth ('y sector'). Ystyriodd y Pwyllgor gyfraniadau ysgrifenedig, clywodd dystiolaeth lafar gan randdeiliaid mewn cyfarfod ar 9 Gorffennaf 2020 a chlywodd hefyd gan Dafydd Elis-Thomas, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru ar 12 Mai.

1. Heriau cyllid uniongyrchol

2. Clywodd y Pwyllgor fod yr effaith ariannol ar y sector wedi bod yn sylweddol. Dywedodd Justin Albert o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol fod y cyfnod clo wedi cael 'cryn effaith' ar eu hincwm masnachol. Mae gweithgareddau masnachol ar safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 'wedi mynd o 100 y cant i tua 2 neu 3 y cant ar y gorau'.² Roeddent yn amcangyfrif y byddai eu diffyg yn y gyllideb yn cyfateb i '£200 miliwn eleni ar draws yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol'.³

3. Dywedodd cynrychiolwyr Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon:

¹ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 50

² Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 51

³ Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol



'Firstly, it is likely that we will see our income significantly reduced for the foreseeable future... Secondly, operating costs and staffing needs will increase as we adapt to new COVID-19 guidelines'.⁴

4. Gall cyflogwyr hawlio 80 y cant o gyflogau staff sy'n methu â gweithio trwy Gynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU ('y cynllun ffyrlo'). Clywodd y Pwyllgor fod y cynllun hwn wedi'i ddefnyddio ar draws y sector. Er enghraifft, mae 80 y cant o staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol,⁵ 25 y cant o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru⁶ a 40 y cant o staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru⁷ wedi cael eu rhoi ar y cynllun ffyrlo. Disgwylir i'r cynllun ddod i ben ym mis Hydref 2020.

5. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y bydd yn hynod o bwysig bod y cynllun ffyrlo yn parhau cyn hired â phosibl i helpu i gadw'r costau parhaus mor isel ag y gellir o ran y staff hynny nad oes eu hangen ar hyn o bryd, a hynny tan bo'r adeiladau yn gwbl weithredol.⁸

6. Dywedodd Pedr ap Llwyd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y bydd y Llyfrgell wedi colli 95 y cant o'i hincwm masnachol o ganlyniad i COVID-19, a allai olygu colled o 'ryw £600,000 eleni'.⁹ Dywedodd:

'Mae'r her ariannol ar hyn o bryd yn sylweddol iawn, i ddweud y gwir. Mi rydym ni nwan yn edrych ar fod yn rhywbeth fel £1.2 miliwn yn brin yn ein refeniw erbyn diwedd y flwyddyn yma. Dŷn ni'n ceisio cael trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ond dŷn ni yn rhagweld os na fydd y trafodaethau yna yn llwyddiannus y gallem ni fod yn gweld gostyngiad sylweddol iawn yn ein gweithlu o'r flwyddyn newydd ymlaen'.¹⁰

7. Dywedodd David Anderson fod Amgueddfa Cymru yn 'rhagweld y bydd yn colli tua £1.8 miliwn o incwm masnachol' yn y flwyddyn ariannol hon.¹¹ Nododd fod llawer o gyllidwyr y sector wedi dewis blaenoriaethu sefydliadau nad ydynt yn derbyn cyllid gan y Llywodraeth, fel yw'r achos ar gyfer yr Amgueddfa

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

⁶ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 118

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Amgueddfa Cymru

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

⁹ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 58

¹⁰ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 213

¹¹ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 63

Genedlaethol. Dywedodd fod gwir werth eu cymorth grant wedi gostwng 'oddeutu 30 y cant yn ystod y degawd diwethaf'.¹²

8. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas yr Amgueddfeydd:

'Those museums that are most reliant on earned income have initially been hit hardest. This means that independent museums, which are generally run as charitable enterprises, are particularly vulnerable and are estimated to have lost over £800,000 in income in the first quarter of lockdown. There is a threat to rural museums which help support the wider rural and visitor economy in Wales'.¹³

9. Roedd y Cymdeithas yn canu clodydd y cynllun ffyrlo am roi rhywfaint o 'ryddid i'r sector anadlu'. Aeth ymlaen i ddweud mai pryder y Cymdeithas yw y gallai diweddu'r cynllun yn ddisymwth arwain at golli swyddi ac ansolfedd diangen.¹⁴

10. Dywedodd Andrew White, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol:

'we paused 27 projects in Wales in a pipeline that we'd been trying to diversify and successfully been diversifying. Those projects, as a result of the emergency fund, have been parked. That's around £1.7 million of projects withdrawn. That's a risk for us—that those projects might never come back'.¹⁵

Cymorth Rhodd

11. Galwodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chymdeithas yr Amgueddfeydd am newidiadau i'r system Cymorth Rhodd. Galwodd Cymdeithas yr Amgueddfeydd am Gymorth Rhodd sydd wedi'i gynhyrchu gan ganghennau masnachu amgueddfeydd – ond sydd heb ei drosglwyddo i'w canghennau elusennol eto – i gael eu heithrio rhag Treth Gorfforaeth yn y flwyddyn dreth nesaf. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol¹⁶ a Chymdeithas yr Amgueddfeydd

¹² Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 216

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas yr Amgueddfeydd

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas yr Amgueddfeydd

¹⁵ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 220

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

y gellid 'rhagdalau Cymorth Rhodd yn seiliedig ar daliadau y llynedd fel modd i gefnogi incwm'.¹⁷

Cyllid brys

12. Clywodd y Pwyllgor fod sawl ffynhonnell cyllid ar gyfer y sector, ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn Atodiad B.

Ein barn

Diwallu anghenion cyllido'r sector ar unwaith

Yn sgil y cyfnod clo, cafodd ein safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau eu cau ar unwaith. Roedd y golled incwm yn sgil gwerthu tocynnau, siopau, caffis, llogi preifat, digwyddiadau ac aelodaeth yn sylweddol. I sefydliadau llai, gallai fod yn ergyd farwol.

Yn sgil yr argyfwng llif arian ar hyn o bryd, y sefydliadau hynny sy'n dibynnu fwyaf ar yr incwm a enillir sydd wedi'u taro galetaf. Mae amgueddfeydd llai – sy'n rhai annibynnol yn aml – yn arbennig o fregus.

Mae risg i'r pandemig hwn grebachu ein rhwydwaith o amgueddfeydd, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig sy'n rhoi hwb hanfodol i'r economi leol. Mae pob un o'r safleoedd hyn yn werthfawr, er enghraifft, mae amgueddfeydd lleol yn aml yn fan lle mae plant yn dechrau dysgu gyntaf trwy weld gwrthrychau o'r gorffennol. Mae lleoliadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn darparu amgylchedd awyr agored diogel a hygyrch i bob cenhedlaeth. Mae'r bygythiad enbyd sy'n wynebu'r sefydliadau hyn bellach yn peryglu rhan allweddol o'r gymuned leol.

Un ffordd y gellid gwella'r sefyllfa ar unwaith o ran llif arian yw trwy gyflwyno taliadau Cymorth Rhodd. Byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru drafod taliadau Cymorth Rhodd gyda'r Trysorlys, ar ran y sector.

Dywedwyd wrthym am yr argyfwng ariannol sydd ar fin taro sefydliadau unwaith y bydd y cynllun ffyrlo yn dod i ben ym mis Hydref. Bydd gallu sefydliadau i gynhyrchu incwm ar ôl i'r cyfnod clo gael ei lacio cryn dipyn yn llai nag y bu. Nid yw'n realistig disgwyl i dderbynebau yn y dyfodol dalu am yr holl gostau, a bydd angen y cynllun ffyrlo ar gyfer y safleoedd hynny nad ydynt yn

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas yr Amgueddfeydd

gallu ailagor yn llawn o ystyried yr angen am fesurau ymbellhau cymdeithasol parhaus am gryn amser i ddod.

Trwy gydol yr ymchwiliad hwn, rydym wedi clywed gan nifer nad yw eu hincwm masnachol yn debygol o gyrraedd y lefelau oeddent cyn y pandemig am flynyddoedd lawer. Felly, rydym yn ailadrodd ein hargymhelliad, a wnaed yn flaenorol yn yr ymchwiliad hwn, i Lywodraeth Cymru annog y Trysorlys i barhau â'u cynllun ffyrlo y tu hwnt i fis Hydref 2020.

Mae'n amlwg na all awdurdodau lleol dalu am faint o gyllid sydd ei angen i gynnal y sector hon, ac ni all setliadau cymorth grant ein sefydliadau cenedlaethol wneud hynny chwaith.

Ar 5 Gorffennaf lansiodd Llywodraeth y DU gronfa o £1.57 biliwn i 'achub sefydliadau diwylliannol a threftadaeth hanfodol' gan gynnwys £59 miliwn i Gymru. Mewn ymateb, ar 30 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gronfa o £53 miliwn i roi cefnogaeth hanfodol i theatrau, orielau, lleoliadau cerdd, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, orielau, gwasanaethau archif, digwyddiadau a gwyliau, a sinemâu annibynnol'.¹⁸

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i wario'r cyfan o'r £59 miliwn o gyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU i gefnogi unigolion a sefydliadau yn y sector diwylliannol, y celfyddydau a threftadaeth.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i wario'r cyfan o'r £59 miliwn o arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gefnogi unigolion a sefydliadau yn y sector diwylliannol, y celfyddydau a threftadaeth.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i barhau â'r Cynllun Cadw Swyddi y tu hwnt i fis Hydref 2020 ar gyfer sefydliadau treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau na allant ailagor yn llawn eleni.

2. Cynnwys digidol

13. Clywodd y Pwyllgor fod ymdrechion o'r newydd wedi'u gwneud i ddigideiddio casgliadau fel y gellir parhau i'w cyrchu yn ystod y cyfnod clo. Mae'r symud i greu mwy o gynnwys ar-lein wedi arwain at gyrraedd cynulleidfaoedd

¹⁸ <https://llyw.cymru/sicrhau-dyfodol-sector-diwylliant-cymru>

newydd ond bydd angen buddsoddiad parhaus er mwyn adeiladu ar y llwyddiant yma.

14. Dywedodd Amgueddfa Cymru:

'we have focused our efforts on how best we can continue to support the communities we serve during this time, developing programmes and content digitally... Our trends show that there's interest from different market segments, with more local communities engaging with us on the website'.¹⁹

15. Disgrifiodd y prosiect 'Casglu Covid' sy'n crynhoi disgrifiadau o brofiadau pobl yn ystod yr amser hwn. Wrth drafod darpariaeth addysgol, dywedodd fod yr Amgueddfa wedi 'parhau i weithio gydag ysgolion, gan ddatblygu adnoddau newydd gyda Hwb a'r Consortia ar gyfer Cwricwlwm Cenedlaethol newydd Cymru; ynghyd â'r gystadleuaeth Minecraft eich Amgueddfa'. Dywedodd hefyd fod yr Amgueddfa yn gweithio gyda Byrddau Iechyd ar ffyrdd i'r cleifion a staff y GIG ddefnyddio'r casgliad celf 'ar-lein ac yn y gweithle'.²⁰

16. Dywedodd Pedr ap Llwyd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, wrth y Pwyllgor fod y gwaith ar gasglu deunyddiau ar gyfer archif ddigidol y Llyfrgell wedi prysuro yn ystod yr amser y mae'r adeilad wedi cau. Dywedodd fod y Llyfrgell wedi bod yn darparu llawer mwy o gynnwys digidol dwyieithog i ysgolion a cholegau ac 'mae'r cynnydd yn y cynnwys digidol wedi cynyddu yn aruthrol yn ystod y misoedd diwethaf yma'.²¹

17. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fod eu cynnwys digidol yn caniatáu iddynt gyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn ystod y cyfnod clo:

'for example we've seen a six-fold increase in downloads of our podcasts. We are therefore discovering new ways of interacting and engaging the public and providing new forms of access to our places and collections which may well support efforts to widen participation and access in the future, even after the current crisis ends'.²²

18. Cynigiodd Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru enghreifftiau o'r ffyrdd y mae amgueddfeydd yn cefnogi cymunedau ar-lein trwy lunio

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Amgueddfa Cymru

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Amgueddfa Cymru

²¹ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 80

²² Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

adnoddau ar gyfer addysg gartref, casglu profiadau o'r pandemig ar ffurf fideos a gwaith celf, a chynnal arddangosfeydd ar-lein. Dywed i'r Amgueddfa ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect gyda Chasgliad y Werin Cymru i wella mynediad ar-lein ar gyfer sefydliadau llai nad oes ganddynt eu gwefan eu hunain. Pwysleisiodd fod y gwaith i wella mynediad digidol wedi'i wneud heb unrhyw arian ychwanegol. Meddai:

'Welsh Government and other funders should consider investment in museums' innovative digital provision, as well as tackling digital poverty and ensuring all communities in the country have improved digital access and literacy.'²³

19. Pwysleisiodd David Anderson, Amgueddfa Cymru, yntau yr angen am arian ychwanegol:

'an organisation like ours badly, badly needs to invest in our digital systems and infrastructure, and this is very, very expensive and it shows relatively little in six months or a year, but in five years or 10 years, it's the basis for the learning systems, the community engagement work in every community in Wales'.²⁴

20. Galwodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd am fwy o fuddsoddiad i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar-lein. Meddai:

'A grant scheme to support staff, and possibly volunteer training, would also be of assistance as new equipment to move services in a digital direction will not be able to be used to best effect if staff/volunteers are not confident in using it'.²⁵

21. Dywedodd Andrew White, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, wrth y Pwyllgor mai 'un o'r pethau yr ydym yn ei wneud yw buddsoddi yng ngallu digidol y sector dreftadaeth a buddsoddi mewn sgiliau digidol—Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth'.²⁶

22. O ran cyrraedd y sawl nad oes ganddynt fynediad digidol, dywedodd David Anderson, Amgueddfa Cymru:

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru

²⁴ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 165

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

²⁶ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 84

'But I would like to stress that we know that maybe 15 per cent or so of the population of Wales don't have any significant digital access, so we've also worked very, very hard to distribute it through our community partners... to make sure that it's reaching people who otherwise wouldn't be reached'.²⁷

23. Wrth drafod yr hyn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r Gronfa Cadernid, dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wrth y Pwyllgor:

'We've provided £250,000 towards digital library resource, which will enable public libraries to provide additional digital resources to the public and give people resources to read and engage while self-isolating'.²⁸

Ein barn

Darpariaeth ddigidol

Mae sefydliadau treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau wedi ymateb i'r her yn sgil y cyfnod clo trwy gynyddu eu hallbwn digidol a datblygu cynnwys ar-lein ar adeg pan fo mynediad yn y cnawd at gasgliadau yn amhosibl. Clywodd y Pwyllgor am lawer o enghreifftiau, gan gynnwys podlediadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, cwisiau Facebook ar wrthrychau dirgel o Amgueddfa Wrecsam, darlithoedd ar-lein a theithiau rhithiol

Er bod manteision o gyrraedd cynulleidfadau ddaearyddol ehangach trwy weithgareddau ar-lein, mae perygl bob amser bod y rhaniad digidol yn golygu bod rhai yn cael eu gadael ar ôl.

Gwnaed y gweithgareddau hyn heb fawr ddim o arian ychwanegol. Clywsom fod angen adnoddau pwrpasol i adeiladu ar y mynediad digidol a'r dehongliad o'n casgliadau cenedlaethol, ac i gynnal y gwaith hwnnw.

Cododd llawer o'r gweithgareddau hyn o anghenraid fel ateb tymor byr i'r cyfnod clo. Nawr, mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos arweiniad yn hyn o beth, a sicrhau bod yr allbwn digidol yn parhau drwy gynlluniau penodol yn hytrach nag yn ôl mympwy. Mae angen i sefydliadau gydweithredu, a pheidio

²⁷ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 45

²⁸ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 12 Mai, Paragraff 10

dyblygu gwaith, yn enwedig o ran paratoi deunyddiau dysgu ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol a Byrddau Iechyd.

Rhaid i'r cynnydd mewn gweithgareddau ar-lein hefyd gael adnoddau priodol i lwyddo. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y bydd yn sicrhau y bydd setliadau cyllid ar gyfer y sector yn y dyfodol yn darparu ar gyfer digideiddio ein casgliadau lleol a chenedlaethol ac yn darparu gweithgareddau addysgol ac allgymorth ar y we.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan amgueddfeydd, archifau a safleoedd treftadaeth adnoddau digonol, o ran arbenigedd a seilwaith, i ddarparu mynediad digidol i'w casgliadau, a chyfle i'w defnyddio ar-lein.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth ar gyfer gwella mynediad digidol i'n casgliadau:

- sydd wedi'i chynllunio, ei hariannu'n briodol ac sy'n cynnig gweledigaeth;
- sydd wedi'i datblygu ochr yn ochr â darparwyr addysg i gyflawni'r Cwricwlwm Cenedlaethol; ac
- sy'n cydnabod y buddion i iechyd meddwl a chorfforol, ac sy'n ceisio sicrhau canlyniadau i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

3. Cefnogaeth yn y dyfodol

24. Dywedwyd wrth y Pwyllgor am yr heriau a'r cyfleoedd yn sgil strategaethau cyllido yn y dyfodol. Galwodd rhanddeiliaid am fuddsoddiad o'r newydd mewn prosiectau cyfalaf ac i'w mecanweithiau adrodd gydnabod cydweithredu pellach a'r ffordd newydd o weithio.

Cydweithredu pellach

25. Galwodd rhanddeiliaid am fwy o gydnabyddiaeth o'r buddion y maent yn eu darparu i sectorau eraill, yn enwedig y sector iechyd a'r sector addysg. Roeddent yn galw am fwy o gydweithredu ar draws y sector cyhoeddus ac ar draws y darparwyr cyllid.

26. Galwodd The First Division Association (yr FDA) i fodel cyllido Llywodraeth Cymru 'newid i un sy'n llai dibynnol ar nifer yr ymwelwyr'. Aeth yr FDA ymlaen i

ddweud ei bod yn 'annhebygol y bydd sefydliadau yn llwyddo i fynd yn ôl i'r lefelau codi arian a welwyd dros y blynyddoedd cyn y pandemig am flynyddoedd lawer, os o gwbl'.²⁹

27. Dywedodd Pedr ap Llwyd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, wrth y Pwyllgor:

'Pe byddai cyllid ar gael, dwi'n siŵr i ni ac i'r amgueddfa hefyd, mi fyddai'n cyfraniad ni yn medru bod yn llawer iawn, iawn mwy i economi Cymru, i addysg Cymru, ac, ie, hyd yn oed i iechyd Cymru... Liciwn i pe byddai Llywodraeth Cymru yn sylweddoli, yn cydnabod hynny, ac yn buddsoddi yn ein sefydliadau diwylliannol ni, ac yn ein galluogi ni i weld ein heffaith ni yn llawer iawn mwy pellgyrhaeddol nag ydy o ar hyn o bryd'.³⁰

28. Galwodd David Anderson, Amgueddfa Cymru, ar Lywodraeth Cymru i gytuno ar raglenni gwaith sy'n gwneud yr Amgueddfa'n gyfrifol am sicrhau canlyniadau ar gyfer y cwricwlwm addysg a'r system iechyd. Meddai:

'what we all need, really, is that we agree work programmes, we're actually made responsible for delivering on work programmes, into the curriculum, working with the health boards and working with the health system'³¹

29. Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn poeni am gymhlethdod y prosesau cyllido gyda gwahanol gronfeydd loteri, cronfeydd llywodraeth ganolog a darparwyr cyllid eraill. Galwodd am ddull cwbl newydd o gyllido ac i Lywodraeth Cymru drosoli cynlluniau cyllido gyda'i gilydd i greu cyfleoedd ar raddfa helaeth, a chyfrannu arian ychwanegol. Dywedodd y gallai'r dull hwn 'alluogi dull mwy cynhwysfawr a chydgyssylltiedig'.³²

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

30. Roedd y rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad o blaid adolygu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir i asesu eu perfformiad gan Lywodraeth Cymru. Roeddent yn dadlau y dylid diweddarau'r dangosyddion iddynt roi

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig FDA

³⁰ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 170

³¹ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 232

³² Tystiolaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

ystyriaeth i gydweithredu ar draws y sector cyhoeddus a gwella'r ddarpariaeth ddigidol.

31. Galwodd David Anderson, Amgueddfa Cymru, i ddangosyddion perfformiad allweddol gwmpasu cyfrifoldeb am weithio gyda'r sector iechyd a'r sector addysg. Dywedodd:

'If a lot is asked of us, and if we're challenged, I think we'll step forward for it. So, give us the KPIs, give us the big vision of what we can do on health across the whole of Wales, and then give us the infrastructure to be able to deliver it. It would be transformative'.³³

32. Dywedodd Andrew White, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, fod angen diweddarau dangosyddion perfformiad allweddol:

'The situation in which we operate has changed dramatically, and these need now to be done in a post-COVID way that moves us to whatever the new normal is going to be'.³⁴

33. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y bydd yn rhaid i'w sectorau diwylliant a threftadaeth fod yn fodel corfforol/digidol hybrid er mwyn meithrin cadernid. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i gyllido'r dull hwn a darparu 'canllawiau a gosod safonau', gan ddweud y bydd angen newid y 'cynlluniau achredu ar gyfer archifau ac amgueddfeydd i adlewyrchu'r newid'.³⁵

Buddsoddi cyfalaf

34. Soniwyd wrth y Pwyllgor am y pwysigrwydd i Lywodraeth Cymru fuddsoddi cyfalaf yn barhaus, a allai fod mewn perygl bellach. Pwysleisiodd Pedr ap Llwyd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, bwysigrwydd buddsoddi cyfalaf i ddatblygu'r llyfrgell fel cyrchfan twristiaeth ddiwylliannol. Dywedodd:

'Mi ydyn ni yn ddiweddar iawn wedi cyflwyno i Lywodraeth Cymru ein cynlluniau ni ar gyfer y grantiau datblygu cyfalaf, ac mi ydw i a fy mwrdd i hefyd yn y llyfrgell genedlaethol yn gweld y llyfrgell yn medru gwneud cyfraniad gwirioneddol ardderchog i economi Ceredigion ac i economi Cymru hefyd'.³⁶

³³ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 232

³⁴ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 238

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

³⁶ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 60

35. Dywedodd David Anderson, Amgueddfa Cymru, fod yn rhaid rhoi rhai prosiectau ar stop. Pwysleisiodd fod ôl-groniad o ran cynnal cyfalaf o fwy na £60 miliwn ar gyfer eu wyth safle, ac aeth ymlaen i ddweud:

'We very, very much hope that the commitment that the Welsh Government has made over the last two years to capital investment will be able to continue after this as well'.³⁷

36. Esboniodd Justin Albert, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ledled y DU wedi gorfod rhoi'r mwyafrif o'u prosiectau cyfalaf mawr ar stop, sy'n cyfateb i oddeutu £15 miliwn y flwyddyn,³⁸ ac y bydd hyn yn cael 'effaith ddramatig' yn y dyfodol.

37. Gosododd Llywodraeth Cymru ddyraniadau cyfalaf o £3.5 miliwn ar gyfer yr Amgueddfa Genedlaethol yng nghyllideb ddrafft 2020-21. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £7 miliwn yn ailddatblygiad Sain Ffagan.

Twristiaeth

38. Roedd sefydliadau yn awyddus i weld atyniadau diwylliannol a threftadaeth yn chwarae rhan amlycach yn ymgyrchoedd twristiaeth Croeso Cymru. Dywedodd Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru:

'We would ask Visit Wales and Welsh Government to ensure that the wider cultural sector, including local museums and attractions not funded directly by Welsh Government, are integral to any campaigns to encourage visitors and tourists back to the country. Support for marketing and communications will be key'.³⁹

39. Galwodd Cymdeithas yr Amgueddfeydd hefyd am 'gynllun strategol i annog a datblygu twristiaeth ddomestig yng Nghymru gan ganolbwyntio ar amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth'.⁴⁰

40. Dadleuodd David Anderson, Amgueddfa Cymru, fod yr Amgueddfa'n cyfrannu'n net at economi Cymru trwy ddenu twristiaid i Gymru, felly byddai strategaeth dwristiaeth lwyddiannus yn helpu'r tyfiant i'r economi. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

³⁷ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 65

³⁸ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 54

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas yr Amgueddfeydd

'we attracted until March nearly 2 million visitors a year, and nearly half of those are from outside Wales. The economic impact for Wales each year is about £83 million gross value added. So, we're giving back more than four times as much into the Welsh economy as it's costing the Welsh Government to pay for us to run each year'.⁴¹

41. Pwysleisiodd Cymdeithas yr Amgueddfeydd⁴² a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru mor bwysig yw'r sector wrth gefnogi cyflenwyr lleol a chynyddu twristiaeth mewn economïau gwledig. Er enghraifft:

'Anglesey's Oriol Ynys Môn supports 14 Anglesey-based suppliers, 16 Welsh suppliers and 18 UK-based suppliers through their shop. For every £1 of public money spent on the museum, £11.87 is brought into the local economy'.⁴³

Ein barn

Buddsoddi cyfalaf

Clywsom am y peryglon ariannol uniongyrchol y mae'r sector yn eu hwynebu, ond rhybuddiodd rhanddeiliaid hefyd am yr angen i wneud buddsoddiadau tymor hwy. Fe wnaethant alw ar Lywodraeth Cymru i adnewyddu ei hymrwymyiadau i brosiectau cyllido cyfalaf, gan dynnu sylw at ddiffyg buddsoddiad hanesyddol mewn adeiladau. Dywedodd Ffederasiwn yr Amgueddfeydd ac Oriolau Celf wrthym fod cyfleusterau hen sydd o ansawdd gwael ar gyfer ymwelwyr wedi rhwystro gallu amgueddfeydd i ailagor yn llawn.

Yn ein sesiynau craffu blynyddol, mae'r Pwyllgor wedi trafod y brys sydd ei angen o ran darparu cyllid cyfalaf i Amgueddfa Cymru. Fis Rhagfyr y llynedd, ymwelodd yr Aelodau ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i weld drostynt eu hunain y cyfleusterau i ymwelwyr sydd angen eu huwchraddio a'r diffyg mynediad i gadeiriau olwyn.

Rydym am weld adeiladau sy'n ddeniadol i ymweld â nhw ac sy'n hygyrch i bawb. Bydd buddsoddiad cyfalaf hefyd yn gwella cyflogaeth leol ac o fudd i'r economi. Gobeithiwn na fydd ail-flaenoriaethu cyllid yn y tymor byr i ymateb i'r

⁴¹ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 66

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas yr Amgueddfeydd

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru

cyfnod clo yn arwain at danariannu dros y tymor hir ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr sydd angen eu gwella.

Strategaeth dwristiaeth o'r newydd

Mae ymwelwyr â'n seilwaith diwylliannol a threftadaeth yn gwneud cyfraniad hanfodol i economïau gwledig. Mae strategaeth dwristiaeth Llywodraeth Cymru eisoes yn hyrwyddo treftadaeth unigryw Cymru, ond ar adeg pan allai pobl fod yn betrusgar rhag mynd i mewn i leoliadau llai, ac ymwelwyr rhyngwladol yn cadw draw, byddwn yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ddweud bod arnom angen ymdrech ar y cyd i ddatblygu twristiaeth ddomestig yn seiliedig ar ein treftadaeth a'n hamgueddfeydd.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u Diweddarau

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod angen i gyllid a phrosesau cyflenwi yn y sector hwn newid. Maent wedi awgrymu diweddarau eu hasesiad perfformiad er mwyn ystyried cyflwyno canlyniadau iechyd ac addysg. Rydym yn cymeradwyo Dangosyddion Perfformiad Allweddol estynedig sy'n caniatáu ar gyfer darparu ar draws y sector ac yn ddigidol.

Am nifer o flynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor hwn wedi annog y sector i gynyddu incwm masnachol a lleihau'r ddibyniaeth ar arian cyhoeddus. Mae'r pandemig wedi datgelu breuder y model cyllido hwn. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y penderfynir ar gyllid ar gyfer amgueddfeydd, archifau a safleoedd treftadaeth i ystyried eu darpariaeth ddigidol gynyddol ac i wneud iawn am eu gostyngiad mewn incwm masnachol.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y gwneir penderfyniadau ar gyllid i amgueddfeydd, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth gan ystyried cynnydd mewn darpariaeth ddigidol a gwneud iawn am y gostyngiad mewn incwm masnachol.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu dangosyddion perfformiad allweddol y sector hwn i annog:

- mwy o gydweithredu o fewn y sector; a
- darparu canlyniadau ym maes iechyd, addysg, mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod gan y sector ddigon o adnoddau i gyflawni'r amcanion hyn.

4. Cyrraedd cynulleidfa ehangach

42. Dywedwyd wrth y Pwyllgor am ymdrechion o'r newydd i wella mynediad at dreftadaeth Cymru ac i wneud casgliadau'n berthnasol i gynulleidfa ehangach. Clywodd y Pwyllgor hefyd am y potensial i ddefnyddio adnoddau llyfrgelloedd ac amgueddfeydd i fynd i'r afael â thlodi.

43. Amlygodd Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru rôl amgueddfeydd wrth greu cymunedau cydlynol:

'The role that museums can play in tackling poverty and creating opportunities for those most at risk of socio-economic exclusion, as evidenced by their participation in the Fusion programme, is likely to become even more important as the effects of the pandemic on the country's economy begin to become clearer'.⁴⁴

44. Yn yr un modd, galwodd Pedr ap Llwyd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ar Lywodraeth Cymru i wario'r £59 miliwn o arian ychwanegol ar liniaru effeithiau tlodi. Dywedodd:

'Liciwn i pe bai Llywodraeth Cymru yn sylweddoli beth mae llyfrgelloedd lleol yn medru wneud i leddfu effeithiau tlodi, a rhoi gwybodaeth i bob un fel bod ni ddim yn gwahaniaethu rhwng aelwydydd. Mae gwybodaeth yn medru ein codi ni allan o'r sefyllfaoedd difrifol rydan ni'n ffeindio'n hunain ynddyn nhw, a gadewch i ni gydweithio er mwyn dileu difreintedd gwybodaeth a diwylliant ein cymunedau gyda'n gilydd'.⁴⁵

45. Dywedodd Andrew White, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol:

'It's about being inclusive, so that the people of Wales—all the peoples of Wales—feel that their heritage, their built environment and their natural surroundings not only belong to them, but are relevant to them, accessible to them, and tell a story of our wonderful, inclusive nation's culture and heritage'.⁴⁶

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru

⁴⁵ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 243

⁴⁶ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 236

46. Roedd y sgwrs hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i wella mynediad ar gyfer pobl o wahanol ethnigrwydd yn ogystal â gwahanol lefelau incwm. Dywedodd yr Amgueddfa Genedlaethol ei bod yn cydsefyll â chymunedau du yn y frwydr yn erbyn anghyfiawnder hiliol. Dywedodd fod casgliadau amgueddfeydd yn aml â gwladychiaeth wrth eu gwraidd, ond mae'n ceisio arallgyfeirio'r casgliadau a chyfrannu 'at sgysiau sy'n tynnu sylw at ddadwladychu, anghydraddoldeb a hiliaeth'. Aeth ymlaen i ddweud y bydd yr ymrwymiad hwn yn parhau, y tu hwnt i'r sefyllfa bresennol, gan fod deall yr heriau a wynebwyd yn y gorffennol yn grymuso pobl i ddod ynghyd i wynebu problemau heddiw.⁴⁷

47. Roedd Justin Albert, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, hefyd yn sôn am yr her o ddenu cynulleidfa fwy amrywiol. Meddai:

'we really do everything in our hearts to make people welcome, but people still don't feel welcome. I spend a lot of time talking to communities... [such as] Bangladeshi communities in Conwy - and they would love to be more engaged. They don't feel welcome. If we can do anything to make people feel more welcome in our places, if I had my golden wish, that's what it would be'.⁴⁸

Ein barn

Gwneud yr hanes sy'n gyffredin rhyngom yn gynhwysol ac yn hygyrch

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i rôl y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wrth fynd i'r afael â thlodi yn 2019.⁴⁹ Yn ystod yr ymchwiliad hwn, clywsom eto am yr angen i wella amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n ymweld â safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau.

Mae rôl ar gyfer y sector o ran darparu'r wybodaeth a'r ymgysylltiad sy'n hanfodol i bobl sydd mewn perygl o gael eu hallgáu yn gymdeithasol. Mae'r cyfnod clo nid yn unig wedi dangos pwysigrwydd ein casgliadau cenedlaethol ar gyfer adnoddau addysgol, ond hefyd bwysigrwydd cynnig mynediad i lefydd yn yr awyr agored, megis safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Po fwyaf o ymgysylltiad sydd gan bobl â'u treftadaeth a'u hanes, y cryfaf yw eu synnwyr o gydlyniant cymunedol. Mae'r ffordd y mae'r hanes hwnnw'n cael ei

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Amgueddfa Cymru

⁴⁸ Cyfarfod Pwyllgor DGCh, 9 Gorffennaf, Paragraff 245

⁴⁹ <https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld12847/cr-ld12847%20-w.pdf>

gyflwyno yn newid o hyd. Rydym yn croesawu ymrwymiad Amgueddfa Cymru i 'weithio gyda chymunedau Cymru i fod yn rhagweithiol wrth wrthwynebu hiliaeth ym mhopeth a wnawn'.⁵⁰ Roedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd yn cydnabod bod hyn yn cynnwys sicrhau mwy o amrywiaeth mewn casgliadau.

Dylid adeiladu ar yr awch i ddechrau sgysiau am gynnwys a dyluniad ein casgliadau cenedlaethol a'r ffyrdd y gallant gynrychioli hanes gwladychiaeth dramor a gormes gartref. Dylid amcanu i wneud hyn hefyd yn yr ymdrechion i wella mynediad at safleoedd treftadaeth, archifau ac amgueddfeydd trwy wneud i bawb deimlo bod croeso iddynt.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatgan sut y bydd unrhyw arian ychwanegol ar gyfer y sector diwylliannol yn cael ei ddefnyddio i liniaru'r achosion o allgáu cymdeithasol ac i wella mynediad at ein safleoedd treftadaeth, ein llyfrgelloedd a'n hamgueddfeydd.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan sut y bydd unrhyw arian ychwanegol ar gyfer y sector diwylliannol yn cael ei ddefnyddio i liniaru'r achosion o allgáu cymdeithasol a gwella mynediad i'n safleoedd treftadaeth, ein llyfrgelloedd a'n hamgueddfeydd.

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Amgueddfa Cymru

Atodiad A

Clywodd y Pwyllgor gan y bobl a ganlyn mewn cyfarfod ar 9 Gorffennaf. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar y [wefan](#):

David Anderson, Cyfarwyddwr	Amgueddfa Cymru
Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr a Llyfrgellydd	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Andrew White, Cyfarwyddwr	Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
Justin Albert, Cyfarwyddwr	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Cafodd y Pwyllgor gyfraniadau ysgrifenedig i'n hymchwiliad y gellir eu darllen ar y [wefan](#).

Defnyddiwyd y cyfraniadau ysgrifenedig a ganlyn yn yr adroddiad hwn:

COV 22 Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon
COV 27 Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
COV 24 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
COV 60 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
COV 67 Amgueddfa Cymru
COV 68 Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru
COV 71 Cymdeithas yr Amgueddfeydd
COV 76 FDA

Atodiad B

Cyllid brys

Cronfa Dycnwch Ddiwylliannol ar gyfer amgueddfeydd, casgliadau, gwasanaethau cadwraeth, archifau a llyfrgelloedd cymunedol a chyhoeddus, wedi'i ddsbarthu gan Lywodraeth Cymru.	£1,000,000
Cynllun grantiau dycnwch COVID-19 ar gyfer amgueddfeydd ac atyniadau treftadaeth Cymru. Cyllid gan Lywodraeth Cymru, a weinyddir gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru. Ar 6 Gorffennaf, roedd £158,417 wedi'i ddyfarnu i 18 amgueddfa	£300,000
Arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu adnoddau digidol mewn llyfrgelloedd	£250,000
Cronfa Argyfwng Treftadaeth ledled y DU gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol Grantiau rhwng £3,000 a £50,000 ar gyfer 'safleoedd hanesyddol, treftadaeth ddiwydiannol a morwrol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau, parciau a gerddi, tirweddau a natur'. ⁵¹	£50,000,000
Ar 5 Gorffennaf 2020 cyhoeddodd Llywodraeth y DU fuddsoddiad o £1.57 biliwn i warchod sefydliadau diwylliannol, y celfyddydau a threftadaeth, gan gynnwys £59 miliwn i Gymru. ⁵² Ar 30 Gorffennaf 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gronfa o £53 miliwn i ddarparu cefnogaeth hanfodol i theatrau, orielau, lleoliadau cerdd, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, orielau, gwasanaethau archif, digwyddiadau a gwyliau, a sinemâu annibynnol'. ⁵³	£53,000,000
Cymorth Llywodraeth y DU i fusnesau Mae benthyciadau, rhyddhad trethi a grantiau arian parod ar gael - dywedodd Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru fod eu haelodau wedi sicrhau o leiaf £560,000 o'r cyllid sy'n gysylltiedig â'u gwerthoedd ardrethol.	

⁵¹ <https://www.heritagefund.org.uk/cy/node/110588>

⁵² <https://www.gov.uk/government/news/157-billion-investment-to-protect-britains-world-class-cultural-arts-and-heritage-institutions>

⁵³ https://lyw.cymru/sicrhau-dyfodol-sector-diwylliant-cymru?_ga=2.163053247.2090050275.1596666287-1139816859.1544117692

<p>Cynllun Cadw Swyddi - Gall cyflogwyr wneud cais i staff gael hyd at 80% o'u tâl os na allant weithio - 'y cynllun ffyrlo'. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none">▪ Mae 80% o staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi'u rhoi ar y cynllun ffyrlo▪ Mae 40% o staff Amgueddfa Cymru wedi'u rhoi ar y cynllun ffyrlo▪ Mae 25% o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi'u rhoi ar y cynllun ffyrlo	
--	--